## YR ATODLEN

Erthygl 2

### Y Safon Uwch

**Safonau Gofod**

**Safonau gofod ar gyfer llety cysgu**

**Meintiau ystafelloedd pan fo cyfleusterau coginio yn cael eu darparu mewn ystafell/cegin ar wahân**

| *Arwynebedd Llawr Ystafell* | *Nifer Fwyaf o Bersonau* |
|---|---|
| Heb fod yn llai na 6.5 metr sgwâr | 1 person |
| Heb fod yn llai na 10.2 metr sgwâr | 2 berson |
| Heb fod yn llai na 14.9 metr sgwâr | 3 pherson |
| Heb fod yn llai na 19.6 metr sgwâr | 4 person |

**Meintiau ystafelloedd pan fo cyfleusterau coginio yn cael eu darparu o fewn yr ystafell**

| *Arwynebedd Llawr Ystafell* | *Nifer Fwyaf o Bersonau* |
|---|---|
| Heb fod yn llai na 10.2 metr sgwâr | 1 person |
| Heb fod yn llai na 13.9 metr sgwâr | 2 berson |
| Heb fod yn llai na 18.6 metr sgwâr | 3 pherson |
| Heb fod yn llai na 23.2 metr sgwâr | 4 person |

*At ddibenion y cyfrifiadau o faint yr ystafell uchod, mae plentyn o dan 10 oed i'w drin fel hanner person.*

(a) Dim mwy na 4 person i feddiannu un ystafell, ac eithrio pan fo'r meddianwyr yn cydsynio.

(b) Dim rhannu ystafelloedd ar gyfer y rheini o ryw gwahanol i'w gilydd, sy'n 10 oed neu'n hŷn, oni bai eu bod yn byw gyda'i gilydd fel partneriaid a bod y ddau dros yr oed cydsynio, neu pan fo rhiant neu warcheidwad yn dewis rhannu gyda phlentyn hŷn.

(c) Rhaid i uchder llawr i nenfwd pob ystafell fod o leiaf 2.1 metr dros nid llai na 75% o arwynebedd yr ystafell. Rhaid diystyru unrhyw ran o'r ystafell pan fo uchder y nenfwd yn llai na 1.5 metr wrth gyfrifo arwynebedd y llawr.

(d) Mae ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar wahân yn anaddas ar gyfer llety cysgu.

**Gosodiadau ar gyfer gwresogi**

**2.** Rhaid bod gan y llety ddarpariaeth ddigonol ar gyfer gwresogi. Rhaid i bob ystafell gyfanheddol ac ystafell ymolchi neu ystafell gawod fod yn gallu cynnal a chadw isafswm tymheredd o 18°C yn yr ystafell pan fo'r tymheredd y tu allan yn minws 1°C.

**Cyfleusterau ar gyfer storio, paratoi a choginio bwyd mewn uned lety**

**3.**—(1) Mewn uned lety sy'n lletya mwy nag un person, rhaid i'r ardal paratoi bwyd a ddarperir yn yr uned gynnwys y cyfleusterau a ganlyn:

(a) pedwar llosgwr/hob, ffwrn gonfensiynol a gril, neu ddau losgwr/hob a microdon sy'n cynnwys ffwrn a gril;

(b) sinc a bwrdd diferu integredig, sydd â chyflenwad cyson o ddŵr poeth a dŵr yfed oer;

(c) cwpwrdd storio sydd â chapasiti o 0.2 o fetrau ciwbig o leiaf ac eithrio man storio o dan y sinc;

(d) oergell;

(e) isafswm o bedwar soced 13 amp (sengl neu ddwbl) wedi eu lleoli dros yr wyneb gweithio;

(f) wyneb gweithio ar gyfer paratoi bwyd sy'n mesur o leiaf 1 metr x 0.6 metr; ac

(g) isafswm o 1 metr o ardal cylchdroi rhwng cyfleusterau a chelfi/dodrefn eraill yn yr ystafell.

(2) Mewn uned lety sy'n lletya un person, rhaid i'r ardal paratoi bwyd a ddarperir yn yr uned lety gynnwys y cyfleusterau a ganlyn:

fel (a) – (g) uchod ond (a) i gael isafswm o ddau losgwr/hob.

**Storio, paratoi a choginio bwyd mewn cyfleuster a rennir**

**4.**—(1) Pan fo ardaloedd paratoi bwyd yn cael eu rhannu rhwng mwy nag un aelwyd, rhaid bod un set o gyfleusterau cegin ar gyfer:

(a) pob 3 aelwyd deuluol neu lai;

(b) pob 5 aelwyd un person neu lai (ar gyfer rhwng 6 a 9 aelwyd un person, mae ffwrn neu ficrodon ychwanegol yn ofynnol);

(c) pob 10 person neu lai pan fo cymysgedd o aelwydydd teuluol ac aelwydydd un person o fewn yr un fangre.

(2) Rhaid i bob set o gyfleusterau a rennir ddarparu'r cyfleusterau a ganlyn:

(a) fel ar gyfer paragraff 3(1)(a) i (g) ac eithrio bod rhaid i gyfleusterau coginio gynnwys 4 llosgwr neu hob, a ffwrn gonfensiynol, gril a microdon;

(b) tegell trydan; ac

(c) tostiwr.

(3) Caniateir i'r ardal paratoi bwyd a ddefnyddir gan y rheolwr gael ei chynnwys wrth gyfrifo'r gymhareb, ar yr amod ei bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer storio, paratoi a choginio bwyd mewn cyfleuster a rennir.

(4) Pan nad oes gan breswylwyr fynediad i gyfleusterau cegin a bod y rheolwr yn darparu brecwast a phryd bwyd gyda'r nos o leiaf ar gyfer preswylwyr, ystyrir bod y gofynion ar gyfer cyfleusterau cegin a rennir wedi eu bodloni.

(5) Rhaid i gyfleusterau ychwanegol i'w darparu ym mhob ystafell wely neu o fewn yr holl lety a feddiennir yn gyfan gwbl gan bob aelwyd gynnwys;

(a) oergell; ac

(b) cyfleuster storio cloadwy.

Fel arall, caniateir darparu'r rhain mewn mannau eraill yn yr adeilad.

**Cyfleusterau toiled ac ymolchi**

**5.**—(1) Rhaid i gyfleusterau i'w defnyddio yn gyfan gwbl gan y person neu'r aelwyd gynnwys:

(a) bath neu gawod;

(b) basn golchi dwylo â chyflenwad cyson o ddŵr poeth ac oer; ac

(c) toiled naill ai en-suite neu mewn ystafell ar wahân a gedwir at ddefnydd person neu aelwyd yn gyfan gwbl.

(2) Rhaid i gyfleusterau a rennir gynnwys:

(a) un toiled a basn golchi dwylo â chyflenwad cyson o ddŵr poeth ac oer o fewn yr adeilad ar gyfer pob pum aelwyd neu lai. Rhaid iddo gael ei leoli heb fod yn fwy nag un llawr i ffwrdd o'r defnyddwyr bwriadedig. Ar gyfer y pum aelwyd gyntaf caniateir i'r toiled a'r basn golchi dwylo fod yn yr ystafell gawod neu'r ystafell ymolchi. Rhaid i bob toiled a basn golchi dwylo ychwanegol ar gyfer meddianaethau o chwe aelwyd neu fwy fod mewn compartment ar wahân;

(b) un ystafell ymolchi neu ystafell gawod i'w darparu ar gyfer pob pum person. Rhaid i hon gael ei lleoli heb fod yn fwy nag un llawr i ffwrdd o'r defnyddwyr bwriadedig; ac

(c) mewn mangre sy'n lletya plant o dan 10 oed, rhaid i o leiaf hanner y cyfleusterau ymolchi gynnwys baddonau sy'n addas ar gyfer plant.

(3) Ni chaniateir i nifer y personau sy'n meddiannu uned lety sydd â chyfleuster toiled a ddarperir at eu defnydd hwy yn gyfan gwbl gael ei gynnwys wrth gyfrifo toiledau a rennir.

**Diogelwch**

**6.** Rhaid i bob drws mynediad i bob uned lety fod yn gloadwy a rhaid bod modd ei ddatgloi o'r tu mewn heb ddefnyddio allwedd.

**Ystafell neu Ystafelloedd Cyffredin**

**7.** Rhaid bod gan bob mangre ystafell gyffredin sy'n mesur o leiaf 12 metr sgwâr oni bai bod gan bob aelwyd ardal fyw ar wahân i'w hardal gysgu sydd ar gael at ddefnydd yr aelwyd honno yn gyfan gwbl, neu fod y fangre ar gyfer aelwydydd un person yn unig.

**Safonau Rheoli**(1)

**8.**—(1) Rhaid dyroddi copi ysgrifenedig o 'reolau'r tŷ' i bob aelwyd sy'n cynnwys manylion am sut bydd y sancsiynau am dorri'r rheolau yn cael eu cymhwyso. Rhaid i reolau'r tŷ gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod sy'n gosod aelwydydd digartref yn y fangre.

(2) Rhaid dyroddi i bob aelwyd wybodaeth ysgrifenedig mewn perthynas â'r fangre gan gynnwys sut i weithredu'r holl osodiadau, er enghraifft cyfarpar gwresogi a dŵr poeth ac offer diffodd tân.

(3) Rhaid i wybodaeth ysgrifenedig fod ar gael i breswylwyr mewn perthynas â'r ardal leol gan gynnwys lleoliad neu fanylion cyswllt cyfleusterau, golchdai, meddygfeydd ac ysgolion lleol.

(4) Rhaid i breswylwyr gael mynediad i'w hystafelloedd bob amser ac eithrio pan fo ystafelloedd yn cael eu glanhau neu eu cynnal a'u cadw mewn ffordd arall. Rhaid gwneud darpariaeth i letya preswylwyr yn ystod yr amserau hyn.

(5) Rhaid caniatáu mynediad i swyddogion priodol yr awdurdod tai lleol y mae'r fangre wedi ei lleoli yn ei ardal, a swyddogion unrhyw awdurdod sy'n gosod aelwydydd digartref yn y fangre, i arolygu'r fangre ym mha ffordd bynnag ac ar ba adeg bynnag sy'n angenrheidiol, i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau perthnasol; ac y bydd y rheolwr yn caniatáu cynnal arolygiadau o'r fath, heb rybudd os yw'n angenrheidiol.

(6) Rhaid caniatáu mynediad i swyddogion yr awdurdod lleol a'r gweithwyr iechyd a chymunedol awdurdodedig ar gyfer yr ardal y mae'r llety wedi ei leoli ynddi, i ymweld â aelwydydd digartref sy'n meddiannu'r llety a'u cyfweld yn breifat yn yr ystafell neu'r ystafelloedd a feddiennir ganddynt.

**(1) Mae'r safonau rheoli hyn yn ychwanegol at y safonau sydd wedi eu cynnwys yn Rheoliadau Tai (Rheoli Tai Amlfeddiannaeth) 1990.**

(7) Gellir cysylltu bob amser â rheolwr sydd â chyfrifoldeb beunyddiol digonol i sicrhau bod yr eiddo yn cael ei reoli'n dda. Rhaid i hysbysiad sy'n rhoi enw, cyfeiriad a rhif ffôn y rheolwr gael ei arddangos mewn man yn yr eiddo lle y gellir ei weld yn hawdd.

(8) Rhaid bod cynllun ymadael mewn argyfwng clir yn ei le sy'n nodi'r camau gweithredu sy'n ofynnol i'w cymryd wrth glywed y larwm tân, y llwybrau dianc a'r mannau ymgynnull diogel. Rhaid i reolwr sicrhau bod pob person sydd newydd gyrraedd y fangre yn cael gwybod am yr hyn i'w wneud os digwydd tân ac am y rhagofalon tân a ddarperir.

(9) Rhaid dyroddi i bob aelwyd weithdrefn gwyno sy'n pennu sut mae gwneud cwyn. Rhaid i'r wybodaeth hon hefyd gynnwys ym mhle y gall yr achwynydd gael cyngor a chymorth pellach.